Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tybaco a Fêps

Chwefror 2025

senedd.cymru

# 1. Y cefndir

## Bil Tybaco a Fêps Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Tybaco a Fêps[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 5 Tachwedd 2024. Fe'i noddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**2.** Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn rhoi'r trosolwg a ganlyn:

> *"The Tobacco and Vapes Bill will be a landmark step in creating a smoke-free UK. It will:*
>
> > *A. create a smoke-free generation, gradually ending the sale of tobacco products across the country and breaking the cycle of addiction and disadvantage.*
> >
> > *B. strengthen the existing powers to ban smoking in public places to reduce harms of passive smoking, particularly around children and vulnerable people.*
> >
> > *C. ban vapes and nicotine products from being deliberately branded, promoted, and advertised to children to stop the next generation from becoming hooked on nicotine.*
> >
> > *D. provide powers to introduce a licensing scheme for the retail sale of tobacco, vapes and nicotine products, extend the retail registration scheme in Scotland, and strengthen enforcement activity to support the implementation of the above measures.*
> >
> > *E. the Bill sits alongside wider support across the health service to support smokers to quit.*
>
> *The Bill modifies, amends, extends, and re-enacts several existing tobacco and vaping control measures to create a consistent legislative framework. These changes will help to ensure a consistent application of the law, close loopholes, improve readability and subsequent enforcement.*

[1] Y Bil Tybaco a Fêps, fel y'i cyflwynwyd

> *The Bill broadly seeks to align provisions across the UK, building on the existing legislative frameworks that apply."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben, sef:

> *"Make provision about the supply of tobacco, vapes and other products, including provision prohibiting the sale of tobacco to people born on or after 1 January 2009 and provision about the licensing of retail sales and the registration of retailers; to enable product and information requirements to be imposed in connection with tobacco, vapes and other products; to control the advertising and promotion of tobacco, vapes and other products; and to make provision about smoke-free places, vape-free places and heated tobacco-free places."*[3]

**4.** Mae wyth rhan i'r Bil, ac mae ynddo 171 o gymalau a 21 o Atodlenni.

**5.** Cafodd y Bil hwn ei ail ddarlleniad ar 26 Tachwedd 2024. Daeth y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 30 Ionawr 2025. Pan gytunwyd ar ein hadroddiad, nid oedd y dyddiadau ar gyfer y cyfnod Adrodd a'r Trydydd darlleniad wedi'u cyhoeddi eto.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

**6.** Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fo Bil perthnasol sydd gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

**7.** Ar 20 Tachwedd 2024, gosododd Sarah Murphy AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant (y Gweinidog), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) mewn perthynas â'r Bil gerbron Senedd Cymru.[4]

**8.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ill dau gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 7 Chwefror 2025.[5] Ar 3 Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i'r pwyllgorau gyflwyno

---

[2] Nodiadau Esboniadol y Bil Tybaco a Fêps, tudalen 3
[3] Y Bil Tybaco a Fêps, fel y'i cyflwynwyd, tudalen 1
[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, Y Bil Tybaco a Fêps, Tachwedd 2024
[5] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps, Tachwedd 2024

adroddiad, sef 21 Chwefror 2025.[6] Ar 14 Ionawr 2025, newidiodd y Pwyllgor Busnes y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad eto i 28 Chwefror 2025.[7]

**9.** Ar 4 Chwefror 2025, ysgrifennodd y Gweinidog at ddau Bwyllgor perthnasol y Senedd i roi gwybod i ni fod dau welliant wedi'u cyflwyno i'r Bil, ar gais Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â chymalau 168 a 170.[8] Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd ei bod yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch cymalau 34, 150, a 151, a'i bod yn parhau i drafod cymalau 45, 95, 100 a 123. Amlinellir y manylion hyn yn ddiweddarach yn ein hadroddiad.

## Safbwynt Llywodraeth Cymru a'i hymgysylltiad â Llywodraeth y DU

**10.** Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod mesurau craidd y Bil yn cynnwys:

> *"Creu cenhedlaeth ddi-fwg, gan ddod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben yn raddol ledled y wlad a thorri'r cylch caethiwed ac anfantais drwy ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un [a anwyd] ar neu ar ôl 1 Ionawr 2009;*
>
> *Galluogi rheoleiddio i gryfhau'r gwaharddiad presennol ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus er mwyn lleihau niweidiau ysmygu goddefol, yn enwedig o amgylch plant, teuluoedd a phobl sy'n agored i niwed;*
>
> *Gwahardd yr arfer o frandio, hyrwyddo a hysbysebu fêps a chynhyrchion nicotin yn fwriadol i blant, er mwyn atal y genhedlaeth nesaf rhag mynd yn gaeth i nicotin;*
>
> *Cryfhau gweithgarwch gorfodi er mwyn helpu i roi'r mesurau uchod ar waith a rhoi pwerau i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer manwerthu tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, fêps a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac estyn y cynllun cofrestru manwerthu yn yr Alban; ac mae'r Bil yn cyd-fynd â chymorth ehangach ar draws y gwasanaeth iechyd i helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi."*[9]

[6] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps, Rhagfyr 2024
[7] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Tybaco a Fêps, Ionawr 2025
[8] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 4 Chwefror 2025
[9] Y Memorandwm, paragraff 3

**11.** Cefnogir y Bil gan lywodraethau pob un o'r pedair gwlad sydd, yn ôl y Gweinidog, yn rhannu'r uchelgais o gael gwared ar ysmygu a mynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc.[10] Dywed y Memorandwm:

> *"Er mai'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Lloegr (DHSC) oedd yn gyfrifol am arwain y broses o ddatblygu'r Bil, cafwyd cydweithrediad cryf a pharhaus rhwng Llywodraeth Cymru, DHSC, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil."*[11]

**12.** Dywed y Gweinidog yn y Memorandwm:

> *"Gosodwyd y Bil Tybaco a Fêps yn wreiddiol yn Senedd y DU ar 20 Mawrth 2024.[12] Daeth taith y Bil hwnnw i ben pan ddiddymwyd y Senedd cyn yr Etholiad Cyffredinol.*
>
> *Yn ystod y broses o ddatblygu'r Bil, bu Gweinidogion Cymru yn cyfarfod â'r Gweinidogion yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am dybaco, ac yn gohebu â nhw, er mwyn trafod a chytuno ar waith rhynglywodraethol ar y mesurau, yr ymgyngoriad, ei ganlyniad, y dulliau o fynd ati o ran polisi, a'r broses o ddatblygu'r Bil."*[13]

**13.** Nodir rhesymau'r Gweinidog dros wneud darpariaeth ar gyfer Cymru yn y Bil ym mharagraffau 182 i 194 o'r Memorandwm ac maent yn cynnwys:

- "O ystyried natur y broses rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â thybaco, fêps, tybaco llysieuol a chynhyrchion nicotin, a'r gofynion o ran hysbysebu a noddi cynhyrchion, ystyrir mai dull cydweithredol rhwng y pedair gwlad fyddai'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o weithio i Gymru a'r DU. Fel man cychwyn, dylid sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn unfath ledled y DU neu o leiaf ledled Prydain Fawr. At hynny, hyd y gellir, dylai gael ei chyflwyno ar yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cynhyrchion sy'n dderbyniol mewn un rhan o'r DU yn gallu dod i mewn i ran arall o'r DU lle na fyddant yn bodloni'r rheoliadau o bosibl."[14]

[10] Y Memorandwm, paragraff 8
[11] Y Memorandwm, paragraff 8
[12] Y Bil Tybaco a Fêps, a osodwyd yn Senedd y DU ar 20 Mawrth 2024 ac a fethodd pan ddiddymwyd Senedd y DU
[13] Y Memorandwm, paragraff 13 a 14
[14] Y Memorandwm, paragraff 189

- "Mae'r Bil yn golygu y gellir cyflawni amcanion polisi mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau cydlyniaeth a chysondeb ledled y DU. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfundrefn reoleiddio unigol i'r DU gyfan fel ffordd o sicrhau system gydlynol y gellir ei gweithredu ledled y DU gyfan mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn. Mae dull gweithredu tebyg wrthi'n cael ei fabwysiadu mewn perthynas â chyflwyno'r gwaharddiad ar fêps untro o 1 Mehefin 2025, o ystyried manteision cydnabyddedig cysoni'r broses o gyflwyno'r gofynion i fyd busnes, defnyddwyr yn ogystal â'r awdurdodau gorfodi."[15]
- "Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau lle y nodwyd bod dull gweithredu ar gyfer Cymru yn unig yn briodol. Er enghraifft, rheoleiddio arddangosiadau mewn mannau gwerthu ar gyfer fêps a chynhyrchion nicotin eraill yn ogystal â chyflwyno mannau lle y gwaherddir fêps a thybaco wedi'i gynhesu."[16]
- "Ar wahân i'r darpariaethau yn y Bil, mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eraill yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i wahardd gwerthu fêps untro, oherwydd eu heffeithiau amgylcheddol a'r cysylltiadau rhyngddynt a fepio ymhlith pobl ifanc: https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-feps-untro."[17]

**14.** Yn y Memorandwm, dywed y Gweinidog ei bod yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU y bydd gofynion cymalau 34, 150 a 151 yn cyd-fynd â gofynion *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (Deddf 2017).[18]

**15.** Yn y Memorandwm, dywed y Gweinidog hefyd y bydd "yn ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123 i geisio'r sicrwydd cyfansoddiadol angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd ag Egwyddorion y Cabinet ar Ddeddfwriaeth y DU."[19]

**16.** Yn y Memorandwm, daw'r Gweinidog i'r casgliad:

> *"Rwyf o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod angen gweithredu ar sail y DU*

[15] Y Memorandwm, paragraff 190
[16] Y Memorandwm, paragraff 191
[17] Y Memorandwm, paragraff 192
[18] Y Memorandwm, paragraffau 63 a 162
[19] Y Memorandwm, paragraff 178

*gyfan mewn perthynas â thybaco a fêps. Byddaf yn mynd ati i ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123 ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn unol â hynny. Rwy'n cefnogi'r cynigion polisi yn y Bil yn gryf, ac felly rwy'n argymell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r Bil hwn."*[20]

## Darpariaeth y mae angen cydsyniad y Senedd ar ei chyfer

**17.** Yn y Memorandwm, mae'r Gweinidog yn rhoi crynodeb o'r darpariaethau yn y Bil sy'n cynnwys darpariaeth o ran Cymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig ac y mae, o'r herwydd, angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer:

<u>Rhan 1: Gwerthu a dosbarthu: Cymru a Lloegr:</u>

- cymalau 1 i 4 a 6 – Gwerthu tybaco etc;
- cymalau 7 i 9 – Snŵs etc;
- cymalau 10 i 12 – Gwerthu cynhyrchion fepio a nicotin etc;
- cymal 14 – Arddangos cynhyrchion neu brisiau;
- cymal 15 – Dosbarthu am ddim a phrisiau gostyngol;
- cymalau 19 i 22 ac Atodlenni 3 a 4 – Trwyddedu manwerthu: Cymru;
- cymalau 23 i 27 – Gorchmynion mangre o dan gyfyngiad;
- cymalau 28 i 30 – Gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad;
- cymal 31 – Troseddau gan gyrff;
- cymalau 32 a 34 – Swyddogaethau gorfodi;
- cymalau 35(2) a 36(2) – Pŵer gweinidogion i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am orfodi;
- cymalau 37, 38(1), (2), (4), (5) a 39(2) i (4) – Cosbau penodedig;
- cymal 40 ac Atodlen 5 – Rhoi tybaco etc i bobl o dan oed yng Nghymru;

[20] Y Memorandwm, paragraff 201

- cymalau 41 i 44 ac Atodlenni 6 a 7 – Darpariaeth ganlyniadol, drosiannol a darfodol;
- cymalau 45 a 46 – Pwerau i addasu cwmpas;
- cymal 47 – Cymhwyso i'r Goron;
- cymalau 48 a 49 – Dehongli Rhan 1 etc.

Rhan 4: Snŵs etc: Pwerau atafaelu a chadw:

- cymal 89 – Pŵer swyddog Cyllid a Thollau i atafaelu a chadw snŵs etc.

Rhan 5: Gofynion ynglŷn â chynhyrchion a gofynion ynglŷn â gwybodaeth etc:

- cymalau 90 i 93 – Gofynion ynglŷn â chynhyrchion etc;
- cymal 94 – Delweddau nad ydynt yn cydymffurfio;
- cymalau 95 i 98 – Gofynion ynglŷn â chofrestru a gwybodaeth;
- cymalau 99 a 100 – Rheoli ansawdd a diogelwch;
- cymalau 101 a 102 – Materion y mae Rheoliadau 2016 yn ymdrin â nhw;
- cymalau 103 i 109 – Atodol ac amrywiol;
- cymalau 110 a 111 – Ymgynghori a chydsyniad;
- cymalau 112 a 113 – Dehongli Rhan 5 etc.

Rhan 6: Hysbysebu a noddi:

- cymalau 114 i 119 – troseddau hysbysebu amrywiol;
- cymalau 120 i 122 – amddiffyniadau ac eithriadau rhag troseddau hysbysebu;
- cymal 123 – Rhannu brand;
- cymalau 124 a 125 – Nawdd i gynhyrchion tybaco, fepio a nicotin;
- cymalau 126 a 127 – Gwasanaethau clyweledol a darlledu radio;
- cymal 128 – Troseddau gan gyrff;
- cymalau 129 i 131 – Gorfodi;

- cymal 132 – Cysoni diffiniad mewn hen ddeddfwriaeth hysbysebu hyd nes y ceir un newydd;
- cymal 133 – Pŵer i estyn darpariaethau hysbysebu, a darpariaethau ynghylch darlledwyr teledu a radio a darlledwyr eraill, i ddyfeisiau cynhesu tybaco;
- cymal 134 – Cymhwyso i'r Goron;
- Cymal 135 – Dehongli Rhan 6.

Rhan 7: Mannau di-fwg, mannau di-fêp a mannau eraill â gwaharddiadau:

- cymalau 147[21] i 152 - Cymru.

Rhan 8: Cyffredinol:

- cymalau 160, 161, 163, 165 i 170 – Cyffredinol.[22]

**18.** Ym marn Llywodraeth Cymru, felly, "mae'n ofynnol cael cydsyniad Senedd Cymru mewn perthynas â'r Bil yn ei gyfanrwydd, ac eithrio cymalau 5, 13, 16, 17, 18, 33, 35(1), 36(1), 38(3) a 39(1), Rhannau 2 a 3, cymalau 136-146, 153-158, 159, 162, 164, a 171."[23]

**19.** O ran barn Llywodraeth y DU ynghylch yr angen i gael cydsyniad, dywed y Gweinidog yn y Memorandwm:

> *"Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan ac eithrio cymalau 5, 13, 16-18, 25, 29, 33, Rhannau 2, 3 a 4, cymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126, 127, 136-147, 153-159, 162 a 164 gan fod Llywodraeth y DU wedi barnu nad yw'r broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol ar gyfer y rhain.*
>
> *Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 5, 13, 16-18, 33, Rhannau 2 a 3, cymalau 136-147, 153-159, 162 a 164.*

[21] Ymddengys fod gwall ym mharagraffau 179 a 180 o'r Memorandwm. Mae paragraffau 179 a 180 yn dweud nad yw'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol ar gyfer cymal 147. Fodd bynnag, nid yw cymal 147 wedi'i gynnwys yn y rhestr o gymalau y mae'r Gweinidog o'r farn nad oes angen cydsyniad ar eu cyfer ym mharagraff 15.
[22] Y Memorandwm, paragraffau 15 i 174
[23] Y Memorandwm, paragraff 15

*Fodd bynnag, mae safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r angen am gydsyniad ar gyfer cymalau 25, 29, Rhan 4 a chymalau 95, 100, 109, 114-120, 123, 126 a 127. Yn fy marn i, mae'r cymalau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i fater datganoledig sef iechyd y cyhoedd. O ganlyniad, yn unol â RhS29, mae'n ofynnol cael cydsyniad y Senedd."*[24]

## Pwerau dirprwyedig yn y Bil

**20.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2017 yn helaeth. Mae'n cynnwys darpariaethau dwyieithog a fydd yn addasu cwmpas Deddf 2017, ac yn ychwanegu at y pwerau sydd wedi'u dirprwyo ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru yn y Ddeddf honno, neu'n addasu'r pwerau hynny.

**21.** Credwn fod 19 o bwerau yn y Bil wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig, ac y byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer 15 ohonynt cyn iddynt gael eu defnyddio. Yn ogystal, credwn fod 20 o bwerau yn y Bil wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru.

**22.** Rydym ar ddeall bod pwerau wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol fel a ganlyn:

- Cymal 45: Pŵer i estyn Rhan 1 i gynhyrchion eraill – Mae'r pŵer hwn yn rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i estyn darpariaethau sy'n gymwys i gynnyrch tybaco yn Rhan 1 i ddyfeisiau sy'n ei gwneud yn bosibl i gynhyrchion tybaco gael eu defnyddio neu eitem y bwriedir iddi fod yn rhan o ddyfais o'r fath. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 90: Pecynwaith manwerthu - Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno rheoliadau ynghylch pecynwaith manwerthu cynhyrchion tybaco, dyfeisiau sy'n gysylltiedig â thybaco, cynhyrchion fepio, cynhyrchion nicotin, papurau sigaréts a chynhyrchion ysmygu llysieuol gan gynnwys mewn perthynas â chynhyrchu, mewnforio neu gyflenwi cynhyrchion o'r fath wrth gynnal busnes. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys

[24] Y Memorandwm, paragraffau 179 i 181

darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 91: Nodweddion cynhyrchion - Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch nodweddion cynhyrchion tybaco, dyfeisiau sy'n gysylltiedig â thybaco, cynhyrchion llysieuol, cynhyrchion fepio, papurau sigaréts, a chynhyrchion nicotin. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.
- Cymal 92: Cynnwys a chyflasynnau – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynghylch sylweddau mewn cynhyrchion tybaco, dyfeisiau sy'n gysylltiedig â thybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynhyrchion fepio neu gynhyrchion nicotin a'u cyflasynnau gan gynnwys rheoleiddio cynhyrchion eraill y bwriedir iddynt roi cyflasyn penodol i dybaco, cynhyrchion llysieuol neu gynhyrchion nicotin. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.
- Cymal 93: Sylweddau sy'n cael eu rhyddhau i'r corff dynol ac allyriadau – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch natur a swm y sylweddau a'r allyriadau y gall "cynhyrchion perthnasol" eu rhyddhau. Mae'r pŵer yn cynnwys gwneud darpariaethau ynghylch sut y pennir natur a swm y sylweddau neu'r allyriadau. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.
- Cymal 94: Delweddau nad ydynt yn cydymffurfio – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i wahardd person rhag cyhoeddi delwedd nad yw'n cydymffurfio o becynwaith manwerthu cynnyrch tybaco ac ati. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn

cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 95: Cofrestru – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol sefydlu cofrestr o gynhyrchion tybaco, ac ati. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 96: Gwybodaeth – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd neu fewnforiwr cynnyrch tybaco, dyfais sy'n gysylltiedig â thybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynnyrch fepio neu gynnyrch nicotin ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cynnyrch neu ei gynhyrchydd. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 97: Astudiaethau – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd cynnyrch tybaco, dyfais sy'n gysylltiedig â thybaco, cynnyrch ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynnyrch fepio neu gynnyrch nicotin gynnal astudiaeth mewn perthynas â'r cynnyrch neu gynhwysyn ynddo, a chyflwyno canlyniadau'r astudiaeth i berson a bennir yn y rheoliadau. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 98: Person cyfrifol – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchydd cynnyrch tybaco, dyfais sy'n gysylltiedig â thybaco, cynnyrch ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynnyrch fepio neu gynnyrch nicotin enwebu unigolyn i fod yn gyfrifol am wybodaeth y mae rhaid ei darparu yn unol â rheoliadau a wneir o dan gymalau 94 i 96 (Delweddau nad ydynt yn cydymffurfio, Cofrestru, Gwybodaeth). Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael **cydsyniad** Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd

deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 99: Profi – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson brofi cynhyrchion i benderfynu a yw'r cynnyrch yn cydymffurfio â gofynion o dan reoliadau a wneir o dan bwerau yn y Rhan hon o'r Bil. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 100: Diogelwch cynnyrch – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr gael proses ar waith ar gyfer casglu gwybodaeth am ddiogelwch eu cynnyrch, a'i effaith ar iechyd pobl. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 101: Materion y mae Rheoliadau 2016 yn ymdrin â hwy – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth sy'n debyg i unrhyw ddarpariaeth yn Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (sy'n gyfraith a gymathwyd), neu sy'n cyfateb iddi. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 105 (atodol): Is-ddirprwyo – Mae Cymal 105 yn darparu ar gyfer is-ddirprwyo deddfwriaethol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn yn caniatáu i'r rheoliadau roi disgresiwn. Er enghraifft, gallai hyn ganiatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol benodi person i wneud penderfyniad neu ddyfarniad at ddibenion y rheoliadau, gan gynnwys is-ddirprwyo i Weinidogion Cymru. Cyn gwneud rheoliadau o dan y cymal hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

- Cymal 123: Rhannu brand – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno rheoliadau i wahardd neu gyfyngu ar rannu brand cynhyrchion tybaco, ac ati.

- Cymal 125: Noddi: cynhyrchion fepio, cynhyrchion nicotin a chynhyrchion eraill - Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol ddod â'r gwaharddiad ar nawdd sy'n hyrwyddo'r cynhyrchion hyn i rym.

- Cymal 133: Pŵer i estyn Rhan 6 a *Deddf Cyfathrebiadau 2003* (Deddf 2003) i gynhyrchion eraill – Mae'r pŵer hwn yn rhoi'r gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol estyn darpariaethau sy'n gymwys i gynhyrchion tybaco yn Rhan 6 a Deddf 2003 i ddyfeisiau sy'n ei gwneud yn bosibl i gynhyrchion tybaco gael eu defnyddio neu eitem y bwriedir iddi fod yn rhan o ddyfais o'r fath. Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn. Ond rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud y rheoliadau.

- Cymal 161: Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth ganlyniadol – Mae'r cymal hwn yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud unrhyw ddarpariaeth sy'n ganlyniadol i'r Ddeddf. Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn.

- Cymal 170: Darpariaeth drosiannol – Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i rym.

**23.** Yn yr un modd, rydym ar ddeall bod pwerau'n cael eu dirprwyo i Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

- Cymal 6: Hysbysiad oedran gwerthu yn y man gwerthu: Cymru – Mae'r cymal hwn yn ailddeddfu gydag addasiadau y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 4 o *Ddeddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991* (Deddf 1991). Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n gosod gofynion ar gyfer maint neu ymddangosiad yr hysbysiad ac yn darparu'r amodau y cyflawnir trosedd odanynt os nad yw arwydd yn cydymffurfio.

- Cymal 14: Arddangos cynhyrchion neu brisiau yng Nghymru – Mae'r cymal hwn yn ailddeddfu gydag addasiadau y pwerau i wneud rheoliadau yn *Neddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002* (Deddf

2002). Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru reoleiddio'r modd yr arddangosir cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin a'u prisiau, yn ogystal â'r modd yr arddangosir pecynwaith manwerthu gwag, mewn mannau manwerthu yng Nghymru. Caiff y rheoliadau hefyd ganiatáu ar gyfer creu troseddau.

- Cymal 19: Gwahardd manwerthu cynhyrchion tybaco ac ati yng Nghymru heb drwydded – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno, drwy reoliadau, gynllun trwyddedu yng Nghymru ar gyfer manwerthu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin.

- Cymal 21: Cosbau ariannol am dorri amodau trwydded: Cymru – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r gosb ariannol uchaf am dorri amodau trwydded drwy reoliadau dim ond at ddiben adlewyrchu newidiadau yng ngwerth arian oherwydd chwyddiant. Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn.

- Cymal 27: Pŵer i estyn gorchmynion mangre o dan gyfyngiad yng Nghymru – Mae'r cymal hwn yn ailddeddfu gydag addasiadau y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 51 o Ddeddf 2017. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru estyn y rhestr o droseddau a allai olygu bod manwerthwr yn cael gorchymyn mangre o dan gyfyngiad yng Nghymru. Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn.

- Cymal 39: Pŵer i newid swm cosbau penodedig – Bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid gwerth yr Hysbysiadau Cosb Benodedig a gyflwynir ar gyfer oedran gwerthu, prynu drwy ddirprwy, dosbarthu am ddim, hysbysiad oedran gwerthu tybaco, a throseddau arddangos yn y Bil. Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn.

- Cymal 46: Pŵer i ddiwygio rhestrau o ddogfennau adnabod – Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy reoliadau, gymalau 1 a 10 i newid ystyr dogfen adnabod ("identity document"). Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn.

- Cymal 104 (atodol): Gorfodi – Caiff y pŵer hwn roi swyddogaeth gorfodi'r rheoliadau i awdurdodau gorfodi perthnasol. Yr awdurdodau gorfodi perthnasol yw awdurdod pwysau a mesurau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a chyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon. Caiff y rheoliadau

wneud yr un darpariaethau ag a wneir yn y Bil hwn o dan gymalau 35 a 36, a thrwy hynny ganiatáu i'r awdurdod cenedlaethol perthnasol (Gweinidogion Cymru yng Nghymru) ymgymryd â'r cyfrifoldeb am orfodi, neu ddwyn achos cyfreithiol mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir o dan y rheoliadau, oddi wrth awdurdod gorfodi perthnasol.

- Cymal 121: Siopau gwerthu tybaco arbenigol – Mae'r cymal hwn yn ailddeddfu deddfwriaeth bresennol a phŵer presennol i wneud rheoliadau sydd wedi'i ddirprwyo i'r awdurdod cenedlaethol priodol, h.y. Gweinidogion Cymru yng Nghymru.
- Mae Cymal 148: Cerbydau di-fwg yng Nghymru – Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf 2017 ac yn addasu pŵer presennol i wneud rheoliadau sydd wedi'i ddirprwyo i Weinidogion Cymru, i'w galluogi i nodi dosbarthau o bersonau a gaiff ddynodi ardaloedd o gerbyd yn rhai nad ydynt yn ddi-fwg.
- Cymal 149: Arwyddion dim ysmygu yng Nghymru – Mae'r cymal hwn yn diwygio gofynion Deddf 2017 ynghylch arwyddion dim ysmygu. Mae'r cymal yn addasu pŵer presennol i wneud rheoliadau ac yn darparu ar gyfer rheoliadau a gaiff bennu'r gofynion o ran arddangos a dylunio arwyddion dim ysmygu, a sut a ble y mae'r arwyddion i'w harddangos.
- Cymal 150: Mannau di-fêp yng Nghymru – Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf 2017 i fewnosod pennod newydd ynghylch fepio. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n gwahardd defnyddio fêps mewn mannau neu gerbydau penodol yng Nghymru.
- Cymal 151: Mannau lle na chaniateir tybaco wedi'i gynhesu yng Nghymru – Mae'r cymal hwn yn diwygio Deddf 2017 i fewnosod pennod newydd ynghylch tybaco wedi'i gynhesu. Mae'r cymal hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyflwyno rheoliadau sy'n gwahardd defnyddio dyfeisiau cynhesu tybaco mewn mannau neu gerbydau penodol yng Nghymru.
- Cymal 163: Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol – Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth pan fo darpariaethau o'r fath yn ganlyniadol i Ran 1 (gwerthu a dosbarthu), cymalau 147 i 152, ac Atodlen 19 (mannau di-fwg,

mannau di-fêp a mannau â gwaharddiadau eraill: Cymru) o'r Bil hwn. Pŵer Harri'r Wythfed yw'r pŵer hwn.

- Cymalau 168 a 169: Cychwyn: Rhannau 1 i 4 a Chychwyn: Rhannau 5 i 8 – Pŵer a roddir i Weinidogion Cymru – Mae'r cymalau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud gorchmynion i ddod â chymalau 19 i 22, Atodlenni 3 a 4, cymal 40, Atodlen 5, cymalau 147 i 152, ac Atodlen 19 i rym (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym yn rhinwedd cymal 168(2)).[25]

- Cymal 170: Darpariaeth drosiannol – Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn perthynas â dyfodiad cymalau 19 i 22, Atodlenni 3 a 4,[26] cymal 40, Atodlen 5, cymalau 147 i 152, ac Atodlen 19 i rym.

- Atodlen 5: Rhoi tybaco ac ati i bobl o dan oed yng Nghymru – Mae'r Atodlen hon yn diwygio Deddf 2017 i ddiweddaru'r ddarpariaeth ynghylch rhoi tybaco ac ati i bobl o dan 18 oed i gyd-fynd â'r cyfyngiadau oedran gwerthu newydd, i gynnwys cynhyrchion fepio, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, a chynhyrchion nicotin yn y cyfyngiad hwn. Mae paragraff 11 yn ychwanegu adran newydd 54A (Pŵer i estyn y Bennod hon i gynhyrchion eraill) at Ddeddf 2017, a fydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i estyn y cynhyrchion y mae Pennod 4 o Ran 3 o Ddeddf 2017 yn gymwys iddynt i gynnwys dyfeisiau sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnyrch tybaco gael ei ddefnyddio.

# 2. Trafodaethau'r Pwyllgor

**24.** Gwnaethom drafod y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025.[27]

**25.** Yn ein cyfarfod ar 10 Chwefror 2025[28], gwnaethom drafod llythyr y Gweinidog dyddiedig 4 Chwefror 2025.

[25] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 4 Chwefror 2025, gwybodaeth sy'n ymwneud â gwelliant rhif 15 a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin
[26] Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 4 Chwefror 2025, gwybodaeth sy'n ymwneud â gwelliant rhif 16 a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin
[27] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Ionawr 2025
[28] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 10 Chwefror 2025

**26.** Gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar 17 Chwefror 2025.[29]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**27.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru ynghylch y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir uchod ym mharagraffau 17 a 18.

**28.** Nodwn hefyd fod barn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gydsyniad deddfwriaethol yn cyd-fynd, ac eithrio cymalau 25, 29, 89, 95, 100, 109, 114 i 120, 123, 126 a 127. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn y dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y darpariaethau hyn.

**Casgliad 1.** Cytunwn ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodir yn y Memorandwm, ynghylch y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

### Safbwynt Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ei hymgysylltiad â Llywodraeth y DU

**29.** Nodwn fod llywodraethau pob un o'r pedair gwlad yn y DU yn cefnogi'r Bil. Nodwn hefyd, er mai Llywodraeth y DU sydd wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r Bil, fod y Gweinidog yn dweud y cafwyd cydweithrediad "cryf a pharhaus" rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wrth ddatblygu'r polisi a'r Bil.

**30.** Pan gyflwynodd Llywodraeth flaenorol y DU Fil Tybaco a Fêps[30] yn Senedd y DU ym mis Mawrth 2024, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru[31]. Methodd y Bil â chwblhau ei daith drwy Senedd y DU cyn iddi gael ei haddoedi ar 24 Mai 2024 a'i diddymu wedi hynny ar 30 Mai 2024.

**31.** Cyn i'r Bil fethu, dechreuodd y Pwyllgor graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac ysgrifennodd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, Eluned Morgan AS, ar 30 Ebrill 2024 gyda chyfres o gwestiynau.[32] Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet ar y pryd i'r Pwyllgor ar 14 Mai 2024. O ran gwaith rhynglywodraethol ac a oedd *Deddf Marchnad Fewnol y*

---

[29] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 17 Chwefror 2025
[30] Y Bil Tybaco a Fêps, a osodwyd yn Senedd y DU ar 20 Mawrth 2024 ac a fethodd pan ddiddymwyd Senedd y DU
[31] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Tybaco a Fêps, Mai 2024
[32] Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 30 Ebrill 2024

*Deyrnas Unedig 2020* wedi dylanwadu ar benderfyniad Llywodraeth Cymru i fabwysiadu 'dull gweithredu pedair gwlad', dywedwyd wrth y Pwyllgor fod hynny:

> *"... yn un o'r ystyriaethau pam y byddai'n briodol mabwysiadu dull gweithredu pedair gwlad o ymdrin â Bil Tybaco a Fêps y DU, ond y brif ystyriaeth oedd budd iechyd y cyhoedd. Rydym wedi penderfynu cyfranogi yn y Bil hwn gan ei fod, os caiff ei basio, yn un o'r ymyriadau iechyd cyhoeddus mwyaf arwyddocaol mewn cenhedlaeth. Mae hon yn farn sy'n cael ei rhannu gan lawer o randdeiliaid yn ystod sesiynau tystiolaeth diweddar y Pwyllgor ar y Bill.*
>
> *Gwnaed y penderfyniad i gydweithio yn gynnar yn ystod y broses gan y gallai pob llywodraeth weld y byddai dull gweithredu unedig yn arwain at fuddion clir i iechyd y cyhoedd. O gofio bod y Bil wedi'i gynllunio ar gyfer y bedwaredd sesiwn Seneddol, rhoddodd y Bil gyfle hefyd i ymateb yn gyflym i faterion hollbwysig iechyd y cyhoedd ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag bod yn gaeth i nicotin."*[33]

**32.** Yn y Memorandwm, nodwn fod y Gweinidog yn dweud:

> *"Fel man cychwyn, dylid sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn unfath ledled y DU neu o leiaf ledled Prydain Fawr. At hynny, hyd y gellir, dylai gael ei chyflwyno ar yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cynhyrchion sy'n dderbyniol mewn un rhan o'r DU yn gallu dod i mewn i ran arall o'r DU lle na fyddant yn bodloni'r rheoliadau o bosibl."*

**33.** Mae'r Gweinidog hefyd yn dweud yn y Memorandwm:

> *"Mae'r Bil yn golygu y gellir cyflawni amcanion polisi mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau cydlyniaeth a chysondeb ledled y DU. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfundrefn reoleiddio unigol i'r DU gyfan fel ffordd o sicrhau system gydlynol y gellir ei gweithredu ledled y DU gyfan mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn."*

**34.** Fel yr ydym wedi'i ddweud mewn adroddiadau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol eraill, nid ein rôl ni yw gwneud sylwadau ar rinweddau polisi neu

[33] Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 14 Mai 2024

fel arall y Bil. Fodd bynnag, fel Pwyllgor, rydym yn ymddiddori yn y ffordd y mae deddfwriaeth sy'n effeithio ar faterion datganoledig yng Nghymru yn cael ei gwneud, ble y mae'n cael ei gwneud, pam y mae'n cael ei gwneud fel y mae, a sut y gall Aelodau o'r Senedd ddylanwadu ar ei gwneud.

**35.** Mae iechyd yn faes polisi lle y mae datganoli ledled y DU wedi arwain at ymwahanu o fewn y DU pan fo pob sefydliad datganoledig wedi bod o'r farn bod hynny'n briodol. Daeth cyfyngiadau ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig i rym ar wahanol adegau ledled y DU bron i 20 mlynedd yn ôl. Yn 2021, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i wahardd ysmygu mewn mannau awyr agored mewn ysgolion a meysydd chwarae ac ar dir ysbytai.

**36.** Unwaith eto, pwysleisiwn nad ydym am wneud sylwadau ar rinweddau polisi'r penderfyniadau hyn. Serch hynny, mae datganoli'n golygu, pe bai tystiolaeth o blaid cael deddfwriaeth iechyd y cyhoedd yng Nghymru sy'n wahanol i weddill y DU a chefnogaeth i hynny, y gallai fod yn dda o beth ymwahanu.

**37.** Rydym yn cydnabod bod y Bil yn dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru i weithredu yng Nghymru ond mae'r dull hwn yn dal i gyfyngu ar allu Aelodau o'r Senedd i graffu'n llawn ar y cynigion polisi, gan gynnwys drwy gyflwyno gwelliannau.

**38.** Nodwn hefyd y bydd y Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig. Rydym yn pryderu bod hyn yn rhoi llai o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru a'r Senedd i weithredu i ystyried amgylchiadau Cymru ac yn tanseilio egwyddor datganoli.

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog roi rhagor o eglurhad i'r Senedd ynghylch y rhesymau pam y mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r dull gweithredu ar y cyd â llywodraethau eraill y DU yn y Bil, a chadarnhau a yw *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* yn ffactor sydd wedi cyfrannu at hynny.

**39.** Nodwn hefyd fod y Bil yn diwygio'n helaeth *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* (Deddf 2017), a bod y Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau dwyieithog newydd sy'n cael eu hychwanegu at Ddeddf 2017.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau ai Llywodraeth y DU ynteu Llywodraeth Cymru a luniodd destun Cymraeg y darpariaethau yn y Bil a fydd yn cael eu mewnosod yn *Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*. Os Llywodraeth y DU a'i lluniodd, dylai'r Gweinidog gadarnhau bod y testun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog egluro sut a pham y mae o'r farn bod Senedd y DU yn gallu craffu'n ddigonol ac yn effeithiol ar destun Cymraeg y darpariaethau yn y Bil a fydd yn cael eu mewnosod yn *Neddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*.

**40.** Nodwn fod y Gweinidog yn dweud, yn y Memorandwm, ei bod yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth y DU fod gofynion cymalau 34, 150 a 151 yn cyd-fynd â gofynion Deddf 2017. Nodwn hefyd fod y Gweinidog, yn ei llythyr atom ar 4 Chwefror, unwaith eto wedi cadarnhau bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU ar y cymalau hyn.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y trafodaethau â Llywodraeth y DU ar gymal 34 o'r Bil.

**41.** Rydym yn trafod cymalau 150 a 151 yn adran nesaf ein hadroddiad.

**42.** Nodwn fod y Gweinidog yn ceisio ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 45, 95, 100 a 123. Rydym yn gwneud rhagor o sylwadau ar y darpariaethau hyn yn adran nesaf ein hadroddiad.

## Pwerau dirprwyedig yn y Bil

**43.** Bydd y Bil yn dirprwyo nifer sylweddol o bwerau i Weinidogion Cymru, sy'n cynnwys pwerau Harri'r Wythfed. Bydd y Bil hefyd yn dirprwyo nifer sylweddol o bwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig.

**Casgliad 2.** Mae'r ffaith bod y darpariaethau hyn wedi'u cynnwys mewn Bil gan Lywodraeth y DU a gyflwynwyd yn Senedd y DU yn cyfyngu ar allu Aelodau o'r Senedd i ddylanwadu ar ddirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru.

**44.** Fel yr ydym eisoes wedi'i ddweud yn ein hadroddiad, ym mharagraff 21, credwn fod 19 o bwerau yn y Bil wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig, ac y byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer 15 ohonynt cyn iddynt gael eu defnyddio. Yn ogystal, credwn hefyd fod 20 o bwerau yn y Bil wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru. Mae rhai o'r pwerau hyn yn addasu pwerau presennol a ddirprwywyd i Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog egluro a chadarnhau ein dealltwriaeth, fel y nodir ym mharagraffau 21 i 23 o'n hadroddiad, ynghylch union nifer y pwerau yn y Bil sydd wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol i weithredu mewn meysydd datganoledig a sawl un o'r rheini y mae angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar

eu cyfer cyn iddynt gael eu defnyddio. Dylai hefyd gadarnhau nifer y pwerau yn y Bil sydd wedi'u dirprwyo i Weinidogion Cymru.

**45.** Yn gynharach yn ein hadroddiad, gwnaethom gyfeirio at yr ohebiaeth rhyngom a Llywodraeth Cymru pan gyflwynodd Llywodraeth flaenorol y DU fersiwn gynharach o'r Bil Tybaco a Fêps yn Senedd y DU. Yn ei llythyr at y Pwyllgor ar 14 Mai 2024, ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd i gwestiynau a ofynnwyd gennym am y manylion ar wyneb y Bil hwnnw a'r pwerau dirprwyedig yn y Bil hwnnw. Dywedwyd wrth y Pwyllgor:

> *"Ar y cyd â'n cydweithwyr ledled y DU, rydym wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y materion hyn ac yn credu bod y cydbwysedd cywir wedi'i daro y tro hwn rhwng yr angen i graffu yn briodol ar y darpariaethau ar wyneb y Bil a'r angen i gadw hyblygrwydd, yn benodol, i ymateb i'r diwydiant fepio sy'n esblygu'n gyflym. (…)*
>
> *Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ei safbwynt yn glir, sef na ddylai unrhyw bwerau yn y Bil sydd i fod yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd o fewn cymhwysedd datganoledig Cymru (er enghraifft y rhai yn Rhan 4 o'r Bil, sy'n rheoleiddio gofynion cynnyrch cynhyrchion tybaco a fepio) gael eu gwneud, ar y cyfan, ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru (gweler Cymal 67(a)). Er ein bod yn cydnabod yr angen i rai rheoliadau gael eu gwneud ar sail y DU gyfan, am resymau cydlyniaeth a chysondeb, bernid ei bod yn hanfodol bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu'r rheoliadau i sicrhau eu bod yn cymryd safbwynt polisi Cymru i ystyriaeth. Rwyf yn falch o weld bod y dull gweithredu hwn wedi'i fabwysiadu yn y Bil."*

**46.** Nodwn fod y Gweinidog yn dweud yn y Memorandwm, "Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau lle y nodwyd bod dull gweithredu ar gyfer Cymru yn unig yn briodol." O ystyried y trafodaethau a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y fersiwn flaenorol o'r Bil, credwn fod angen eglurder ynghylch ai Llywodraeth Cymru a nododd fod "dull gweithredu ar gyfer Cymru yn unig yn briodol", a byddem yn croesawu cadarnhad gan y Gweinidog. Yn benodol, credwn ei bod yn bwysig deall sut y daethpwyd i'r casgliad hwn, o ystyried y gallai amgylchiadau Cymru newid yn y dyfodol ac y gallai pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i arfer pŵer i wneud rheoliadau mewn maes datganoledig gael ei arfer gan lywodraeth wahanol yn y DU.

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau ai Llywodraeth Cymru a nododd lle yr oedd angen dull gweithredu ar gyfer Cymru yn unig a sut y gwnaeth hynny, ac ai Llywodraeth Cymru a ofynnodd, o ganlyniad, am y pwerau penodol i wneud rheoliadau sy'n cael eu rhoi yn y Bil i Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog nodi a fu unrhyw anghytundebau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am bwerau i wneud rheoliadau yn y Bil ac a yw Llywodraeth y DU wedi gwrthod rhoi unrhyw bwerau i Weinidogion Cymru.

**47.** Nodwn fod y Gweinidog, yn y Memorandwm, yn dweud bod cymalau 45, 95, 100, a 123 yn cynnwys pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn meysydd sydd, ym marn y Gweinidog, yn ymwneud â materion datganoledig. Byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru yn gyntaf er mwyn arfer y pwerau yng nghymalau 45, 95 a 100. Nodwn fod y Gweinidog yn ceisio rhagor o ymgysylltu â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r pedwar cymal hyn "i geisio'r sicrwydd cyfansoddiadol angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd ag Egwyddorion y Cabinet ar Ddeddfwriaeth y DU."

**48.** Nid yw'n glir i ni pam y mae'r Gweinidog yn pryderu'n benodol am gymalau 45, 95, 100 a 123, oherwydd mae pwerau eraill sydd wedi'u dirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymalau 90 i 101 y byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar eu cyfer ac sy'n gymalau y mae'r Gweinidog o'r farn eu bod yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29.

**49.** At hynny, nodwn fod y Gweinidog, yn ôl y Memorandwm, o'r farn bod cymalau 125 a 161 yn gymalau y mae'r Gweinidog yn ceisio cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Caniateir i'r pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymalau 125 a 161 gael eu harfer heb gydsyniad Gweinidogion Cymru. Unwaith eto, felly, nid yw'n glir i ni pam mai dim ond y pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru yng nghymal 123 sydd fel petai'n peri gofid i'r Gweinidog.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog egluro a rhoi rhagor o fanylion ynghylch pam mai dim ond y pwerau yng nghymalau 45, 95, 100 a 123 y mae o'r farn nad ydynt ar hyn o bryd yn cyd-fynd ag Egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU.

**Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau a fydd yn argymell i'r Senedd na ddylai roi cydsyniad ar gyfer unrhyw gymalau yn y Bil, gan gynnwys 45, 95, 100 a 123, pe baent yn parhau i fod yn anghydnaws ag Egwyddorion Cabinet Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau pa newidiadau i gymal 45 y mae'n eu ceisio, ac a gytunwyd ar y newidiadau hyn gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau pa newidiadau i gymal 95 y mae'n eu ceisio, ac a gytunwyd ar y newidiadau hyn gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau pa newidiadau i gymal 100 y mae'n eu ceisio, ac a gytunwyd ar y newidiadau hyn gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau pa newidiadau i gymal 123 y mae'n eu ceisio, ac a gytunwyd ar y newidiadau hyn gyda Llywodraeth y DU.

**50.** Nodwn fod cymal 105 o'r Bil yn darparu ar gyfer is-ddirprwyo deddfwriaethol ac, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno is-ddirprwyo mewn maes sydd wedi'i ddatganoli i Gymru, fod rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

**51.** Nodwn hefyd, yn rhinwedd cymal 107, y byddai'r pwerau a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Rhan 5 o'r Bil yn galluogi deddfwriaeth sylfaenol i gael ei haddasu, a bod rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru unwaith eto os yw'r rheoliadau'n cynnwys darpariaeth a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd pe bai wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

**52.** Nodwn fod cymalau 150 a 151 o'r Bil yn dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â mannau di-fêp a mannau lle na chaniateir tybaco wedi'i gynhesu yng Nghymru. Nodwn hefyd fod y Gweinidog, yn ei llythyr atom ar 4 Chwefror, wedi cadarnhau bod trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Llywodraeth y DU ar y cymalau hyn.

**Argymhelliad 14.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y trafodaethau â Llywodraeth y DU ar gymal 150 o'r Bil.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor a'r Senedd cyn gynted â phosibl ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn y trafodaethau â Llywodraeth y DU ar gymal 151 o'r Bil.

**53.** Nodwn fod cymalau 168 a 169 yn rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru i ddod â chymalau 19 i 22, Atodlenni 3 a 4, cymal 40, Atodlen 5, cymalau 147 i 152, ac Atodlen 19 i rym. Fodd bynnag, nodwn hefyd fod pŵer eang wedi'i ddirprwyo i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 170(4) y caniateir ei ddefnyddio mewn

meysydd datganoledig i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad â dyfodiad unrhyw ddarpariaeth yn y Bil i rym. Rydym ar ddeall mai dim ond os yw'r rheoliadau'n ymwneud â darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil y bydd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer y pŵer hwn.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y pŵer a ddirprwyir i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghymal 170(4), ac egluro ym mha sefyllfaoedd y byddai angen cydsyniad Gweinidogion Cymru pe bai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio.

## Materion eraill

**54.** Nodwn y bydd cymal 147 o'r Bil yn golygu y bydd gofyniad newydd yn cael ei osod ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn ceisio gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â mannau di-fwg a cherbydau di-fwg yng Nghymru.

**55.** Ar wahanol adegau yn ein hadroddiad, rydym wedi cyfeirio at lythyr a gawsom ar 4 Chwefror 2025 oddi wrth y Gweinidog yn rhoi gwybod i ni am welliannau a wnaed i'r Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y gwelliannau y tynnwyd sylw Pwyllgorau'r Senedd atynt mewn gohebiaeth ar 4 Chwefror 2025 yn cael eu cynnwys mewn memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol a osodir gerbron y Senedd.